
Bydd eich gwybodaeth hefyd yn cael ei defnyddio i helpu i reoli'r gwasanaeth. Gall hyn gynnwys:

- adolygu'r gofal a roddir i Ddefnyddwyr Gwasanaeth i wneud yn siŵr ei fod o'r safon uchaf posibl;
- sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio i gwrdd ag anghenion defnyddwyr y gwasanaeth yn y dyfodol;
- ymchwilio i gwynion, hawliadau cyfreithiol neu ddigwyddiadau pwysig;
- sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio i dalu am y gwasanaethau mae'n eu darparu;
- gwirio ac adrodd ar ba mor effeithiol mae'r gwasanaeth wedi bod;
- sicrhau bod y gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian.

Cael gafeal ar eich gwybodaeth

Mae'r Ddeddf Diogelu Data 1998 yn rhoi'r hawl i chi naill ai edrych ar neu dderbyn copi o unrhyw gofnodion sy'n cynnwys eich gwybodaeth bersonol (p'un ai ar gyfrifiadur neu'n ysgrifenedig). Dylech nodi y bydd yna dâl fel arfer (hyd at uchafswm o £50 os yw'r cais yn un ar gyfer copi o gofnod iechyd). Unwaith y bydd eich cais wedi cael ei wirio, byddwch yn cael gwybod am

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei darparu o fewn 40 diwrnod calendr, ar ôl derbyn eich ffi.

O dan y gyfraith gall fod rhai amgylchiadau prin pan na all y wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani gael ei darparu i chi.

Os ydych yn dymuno cael mynediad i'ch gwybodaeth a ddelir gan un o'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth Un Pwynt Mynediad anfonwch y cais yn uniongyrchol at:

**Un Pwynt Mynediad Sir Ddinbych
64 Brighton Road
Y Rhyl
Sir Ddinbych
LL18 3HN**

Os oes gennych unrhyw bryderon am y modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio gan unrhyw un o'r sefydliadau sy'n rhan o wasanaeth Un Pwynt Mynediad Sir Ddinbych dylech drafod y rhain gyda'r person sy'n gyfrifol am eich gofal.

Os ydych yn dal yn anhapus gyda'r ffordd yr ydym wedi casglu, defnyddio neu rannu eich gwybodaeth, yna mae gennych hawl i gwyno drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad uchod.



Un Pwynt Mynediad Gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig “Cyswllt Cyntaf, Ymateb iawn” Cydwethio â Chi

Sut y defnyddir eich gwybodaeth



Un Pwynt Mynediad

Mae Un Pwynt Mynediad Sir Ddinbych yn wasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn Y Rhyl.

Nod y gwasanaeth yw gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd y trefniadau ac adnoddau lleol drwy ymateb yn briodol i anghenion dinasyddion Sir Ddinbych.

Bydd y gwasanaeth Un Pwynt Mynediad yn cefnogi dinasyddion yn Sir Ddinbych i gynnal a hyrwyddo eu diogelwch, annibyniaeth a lles drwy ddarparu mynediad at wybodaeth a chyingor o safon wedi'u teilwra i'w hanghenion/sefyllfa unigol a, lle bo'n briodol, mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned.

Er mwyn gwneud hyn bydd angen iddo hwyluso perthynas waith agosach rhwng Meddygon Teulu, Ysbytai, gwasanaethau Awdurdodau Lleol a mudiadau gwirfoddol.

Felly, fel rhan o'r Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad, efallai y byddwch angen gwasanaethau gan nifer o wahanol sefydliadau, e.e. iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, mudiadau gwirfoddol, ac ati.

Os felly, efallai y bydd angen rhannu rhywfaint o wybodaeth amdanoch chi fel bod pawb sy'n ymwneud â'ch gofal yn gallu gweithio gyda'i gilydd er eich budd chi.

Sut gall eich gwybodaeth gael ei defnyddio

Bydd gwybodaeth amdanoch ond yn cael ei defnyddio neu ei throsglwyddo i eraill sy'n ymwneud â'ch gofal, os byddant ei hangen.

Pryd bynnag y defnyddir eich gwybodaeth ar gyfer eich gofal, bydd yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Bydd sefydliadau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth Un Pwynt Mynediad:

- ddim fel arfer yn datgelu eich gwybodaeth bersonol heb eich caniatâd, oni bai ei fod er eich lles neu sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith;
- yn sicrhau mai dim ond y lleiafswm o wybodaeth sydd ei hangen fydd yn cael ei throsglwyddo;
- sicrhau bod unrhyw un sy'n derbyn gwybodaeth amdanoch o dan rwymedigaeth i'w chadw'n gyfrinachol ac i ddefnyddio'r wybodaeth at y diben penodedig yn unig;
- sicrhau bod cytundebau rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau yn rheoli'r ffordd y caiff eich gwybodaeth ei rhannu;
- â systemau cadarn ar waith i helpu i atal mynediad heb awdurdod i wybodaeth am gleifion a gedwir ar ei gyfrifiaduron.

Os byddwch yn gofyn i ni beidio â rhannu gwybodaeth amdanoch chi gyda pherson neu sefydliad arall, byddwn yn parchu eich dymuniadau oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol.

Efallai y bydd peidio rhannu rhywfaint o wybodaeth yn golygu

bod yn rhaid i ni newid y lefel o ofal neu wasanaeth a ddarparwn i chi ond bydd hyn yn cael ei egluro. Bydd y penderfyniad terfynol fel arfer yn dibynnu arnoch chi.

Mae yna amgylchiadau eithriadol lle bydd gwybodaeth amdanoch yn cael ei rhannu hyd yn oed os nad ydych yn rhoi caniatâd i ni wneud hynny. Dyma lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu am resymau cyfreithiol neu er lles y cyhoedd, mae hyn yn cynnwys:

- Lle mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith, er enghraifft, hysbysiad genedigaethau, marwolaethau a rhai clefydau heintus;
 - Pan fydd gorchymyn llys wedi cael ei gyhoeddi yn gofyn am y wybodaeth;
 - Lle mae perygl difrifol o niwed i chi neu unigolion eraill;
 - Lle credir bod plentyn mewn perygl o niwed (Deddf Plant 1989);
 - Lle mae angen gwybodaeth ar gyfer atal, datrys neu erlyn trosedd ddifrifol;
 - Pan fydd gwybodaeth a ddarparwyd gennych i ni am drosedd difrifol sydd wedi cael ei gyflawni, megis llofruddiaeth, dynladdiad, trais rhywiol, frad neu herwgipio (Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984);
 - Pan fydd gwybodaeth a ddarparwyd gennych i ni yn ymwneud â therfysgaeth amheus (Deddf Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Diogelwch 2001 a Deddf Terfysgaeth 2000);
 - Lle mae angen datgelu mewn unrhyw
-